**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL**
Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 18 Medi 2018 am 11.00 am ym Theatr y Colisëwm, Aberdâr, CF44 8NG.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd J Rosser

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Ms A Hayes, Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol
Ms A Gould, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd
Mr C Coppock - Aelod Annibynnol
Ms M Dunning - Cyngor Celfyddydau Cymru

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r Swyddogion i gyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a chafodd cyflwyniadau o gwmpas y bwrdd eu gwneud. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr a oedd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod yr arddangosfa yn Amgueddfa Cwm Cynon yn llwyddiant ysgubol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd J. Brencher, Mr C. Hanagan a Ms W. Edwards.

**2 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**3 Beth yw Gwasanaeth Celfyddydau Rhondda Cynon Taf a beth yw ei ddiben?**

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd swyddogion wybodaeth i'r Grŵp Llywio ar waith y Gwasanaeth Celfyddydau. Eglurwyd, yn dilyn newid i'r gwasanaeth yn ddiweddar, bod yr adran nawr yn rhan o Gyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n caniatáu i wahanol ganghennau'r Gyfadran gydweithio'n agosach a rhannu gwybodaeth.

Rhoddodd Rheolwr Diwylliant a Chelfyddydau Strategol ffeithiau diddorol amrywiol i'r Grŵp mewn perthynas â theatrau RhCT e.e. bod Theatr y Parc a'r Dâr yn adeilad rhestredig Gradd 2* a bod Theatr y Colisëwm, yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 ac mai hi yw'r unig theatr â phwll cerddorfa. Serch hynny, cafodd ei esbonio bod y Gwasanaeth Celfyddydau yn cynnwys cymaint rhagor o wasanaethau na'r theatrau poblogaidd. Mae Carfan Celfyddydau a Diwydiannau Creadigol ymroddedig sy'n anelu at hyrwyddo deilliannau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i bobl Rhondda Cynon Taf trwy weithio tuag at fodloni saith Nod Lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chydnabod yr angen i gymunedau fod yn fwy creadigol. Roedd aelodau'n falch o glywed bod gan y gwasanaeth gynrychiolaeth ar Weithgor Cynllun Lles Cwm Taf yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf er mwyn pwysleisio gwerth y Celfyddydau i feysydd Iechyd a Lles. Mae hyn yn rhan o waith y gwasanaeth tuag at gyflawni'r nodau yma. Mae partneriaethau eraill yn cynnwys cynllun hyfforddi 'It's My Shout' a 'Clymu Celf' sy'n anelu at hyrwyddo cynaliadwyedd y celfyddydau yn y rhanbarth.

Siaradodd Rheolwr Datblygu Gweithrediadau'r Theatr am yr arian ar gyfer hyrwyddo'r Gwasanaeth Celfyddydau yn Rhondda Cynon Taf, gan ddweud ei fod yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Incwm sydd wedi'i Ennill a Chynllun Teuluoedd yn Gyntaf. Mewn perthynas â Chyngor Celfyddydau Cymru, dywedodd y swyddog fod cytundeb ariannu refeniw ar waith sy'n cydnabod Theatrau RhCT fel lleoliadau a thai cynhyrchu, ac yn cynnwys targedau allweddol i wneud y theatrau'n fwy gwydn. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod nifer o feysydd wedi'u nodi ar gyfer gwelliant er enghraifft:

- Nodi a gweithredu anghenion hyfforddiant creadigol a phroffesiynol i'r technegwyr i ddatblygu eu sgiliau;
- Creu strwythur blwch du yn Theatr y Parc a'r Dâr i ymgysylltu ymhellach â'r gymuned a datblygu ymdeimlad o berthyn;
- Datblygu'r Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a'r penderfyniad i gynnwys nid yn unig y theatrau, ond holl waith y Gwasanaeth Celfyddydau mewn trafodaethau;
- Parhau i ddatblygu rhaglen artistig a;
- Parhau i ddatblygu Strategaeth Datblygu Cynulleidfa.

Wrth siarad am y Strategaeth Datblygu Cynulleidfa a thrwy ddefnyddio siartiau cylch, dangosodd y swyddog ganlyniadau a gafodd eu darparu gan offer diweddar MOSAIC a Chanfod Cynulleidfaoedd Cyngor Celfyddydau Lloegr. Roedd gan Aelodau ddiddordeb i ddysgu bod rhagfynegiad y byddai'r gynulleidfa o fewn pellter o 20 munud o Theatr y Parc a'r Dâr yn datblygu'n arafach na'r gynulleidfa o fewn yr un pellter o Theatr y Colisëwm, o gymharu'r ffigyrau yma â chyfradd dwf RhCT. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod demograffeg oedran Cwm Rhondda yn hŷn o'i chymharu â Chwm Cynon lle mae nifer uwch o deuluoedd yn mynychu'r sioeau. Dangosodd offer Canfod Cynulleidfaoedd hefyd y mathau o ffurfiau celf a oedd fwyaf poblogaidd ym mhob ardal. Dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn ddefnyddiol wrth lunio'r strategaeth ar gyfer ymgysylltu yn y theatrau yn y dyfodol.

Siaradodd Swyddog Datblygu Rhaglen a Chynulleidfa'r Theatrau am y gwaith sy wedi'i gynhyrchu a'i gyd-gynhyrchu gan y Gwasanaeth Celfyddydau, gan esbonio bod gweledigaeth y gwaith wedi'i haddasu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Siaradodd y swyddog am y blaenoriaethau sy wedi'u nodi yng

'Nghynllun y 4C':

**Cyflwyno**
Eglurwyd mai'r nod oedd cyflwyno gwaith sy wedi'i gynhyrchu/gyd-gynhyrchu sy'n berthnasol i'r gymuned leol trwy wahanol ffurfiau neu genres celfyddydol. Siaradodd y swyddog am y perfformwyr enwog sy wedi'u denu i'r theatrau lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a fyddai ond hyrwyddo RhCT ymhellach. Dysgodd yr Aelodau bod rhaglen flynyddol o weithgareddau gan ysgolion lleol a sefydliadau celfyddydol gwirfoddol / amatur sy'n llogi'r theatrau.

**Cynhyrchu**
Eglurwyd bod y tŷ cynhyrchu wedi gweithio i gefnogi artistiaid newydd ac artistiaid y dyfodol gyda'r weledigaeth y byddan nhw'n gweithio'n lleol ac o bosibl yn rhyngwladol, fel y ddrama 'Good Earth' a gafodd ei chynhyrchu gyda Theatr Motherlode a deithiodd i Efrog Newydd yn 2017.

**Cyfrannu**
Eglurwyd bod dros 200 o bobl yn cymryd rhan yn y ddarpariaeth gelfyddydol sy wedi'i chydlynu gan y gwasanaeth bob wythnos a'r nod oedd addasu'r gwasanaethau i gyrraedd ystod ehangach o bobl trwy feysydd megis:

- Y Gymraeg - mae peilot tair blynedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weithio ar gyfieithu testunau Saesneg clasur ac archwilio tafodiaith y Gymraeg mewn cyd-gynyrchiadau
- Gweithdai Celfyddydau Perfformio i Bobl Anabl
- Gweithio gydag ysgolion fel Ysgol Gyfun Treorci ar wahanol brosiectau fel cynhyrchiad The Mercury Theatre, '35 Times'
- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Cyfleoedd i raddedigion sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau AB / AU yn sector y diwydiannau creadigol
- Dosbarthiadau meistr sy'n cael eu rhedeg gan Stiwdio Actorion Ifainc Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru sy'n caniatáu i bobl ifainc berfformio ar y llwyfan
- Cynllun 'Ewch i Weld' sy'n herio canfyddiad teuluoedd o'r theatrau a'u rhaglenni

**Cynhyrchu â Phartneriaid**
Dywedodd y swyddog mai'r nod strategol yw gweithio gyda chwmnïau, teuluoedd a phobl ifainc o fryd tebyg a fyddai fel arall ddim yn cael cyfle i fynegi eu creadigrwydd trwy wahanol ffurfiau celfyddydol. Roedd nifer o enghreifftiau o gynyrchiadau a chyd-gynyrchiadau allweddol y bu'r theatrau'n rhan ohonyn nhw wedi'u rhoi i aelodau'r Grŵp, fel Blue Scar - roedd cwmni Avant Cymru wedi mynd â'r cynhyrchiad yma i Ŵyl Ffrinj Caeredin yn ddiweddar.

Siaradodd Rheolwr Gwasanaeth y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol am yr amrywiaeth eang o raglenni a gweithdai sydd ar gael yn y gwasanaeth i bobl ifainc, yn enwedig trwy ei gomisiwn gan Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer cyflwyno rhaglenni Diwydiant Cerddoriaeth Ieuenctid a Chelfyddydau Ieuenctid SONIG. Mae gan bobl ifainc fynediad i brosiectau a rhaglenni fel Prosiect Forte SONIG sy'n cael ei gynnal gan Swyddog Datblygu'r Celfyddydau ar gyfer Adfywio gyda chyllid ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a PRS, a fyddai yn ei bedwaredd flwyddyn yn 2019; y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifainc sy'n canolbwyntio ar ddatblygu bandiau a cherddorion y dyfodol; a'r rhaglen Celfyddydau Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar ennyn diddordeb pobl ifainc mewn canu, actio, rapio a llawer rhagor. Esboniodd y swyddogion fod y gweithdai yn

targedu pobl ifainc 8 - 25 oed yn bennaf ond doedden nhw ddim yn gyfyngedig i oedolion ifainc sydd â diddordeb. Rhoddodd y swyddog ddwy astudiaeth achos gerbron y Grŵp Llywio am bobl ifainc a oedd wedi'u magu yn y gymuned leol ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o'r rhaglenni sydd ar gael i ddatblygu cydnerthedd, hyder a pherthnasau. Roedd y Grŵp Llywio yn falch o glywed bod y cyfleoedd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau o'r Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf ac wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl ifainc, yn aml yn newid eu sgiliau cymdeithasol yn llwyr er gwell.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am y cyflwyniad cynhwysfawr, gan ddweud y dylai'r nifer helaeth o wasanaethau sydd ar gael gael eu hyrwyddo a'u dathlu fel gwasanaeth cymunedol. Canmolodd y Cadeirydd y defnydd o waith partneriaeth o fewn meysydd gwasanaeth y Cyngor, gan ychwanegu bod ymyriadau sy wedi'u targedu yn dangos canlyniadau cadarnhaol.

Siaradodd un Aelod yn gadarnhaol am yr wybodaeth a oedd wedi'i derbyn, gan gytuno ei bod yn bwysig i bob un o feysydd y gwasanaeth gael eu hyrwyddo. Siaradodd y Cynghorydd am ei phrofiad personol ei hun gyda'r celfyddydau, gan ddweud eu bod wedi ei haddysgu i fynegi ei hun a datblygu sgiliau newydd.

Siaradodd un Aelod am ei chefndir wrth weithio'n agos gyda'r gymuned, gan gynghori, am amryw resymau fel cost a chludiant, fod llawer o bobl ddim yn gallu profi'r llu o gelfyddydau sydd gyda'r theatrau lleol i'w cynnig a bod angen addysgu ymhellach y tu allan i ffiniau'r theatr. Ychwanegodd yr Aelod y byddai'n fuddiol i gymunedau petai achlysur yn cael ei gynnal i ehangu eu profiadau diwylliannol. Siaradodd Rheolwr Diwylliant a Chelfyddydau Strategol am gynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, sy'n caniatáu i gymunedau lleol a gwirfoddolwyr gynnal cynyrchiadau proffesiynol yn eu hardaloedd ac yn cynnig gwarant yn erbyn colled ar gyfer digwyddiadau. Cytunodd y swyddog fod rhwydweithio'n hanfodol wrth greu profiadau newydd i'r gymuned leol a bod modd ei wella bob amser.

Tynnodd yr Aelod Annibynnol sylw at y gair 'Celf' a phwysleisiodd fod angen ffordd newydd o feddwl am sut y mae modd integreiddio diwylliant ymhellach yn y gymdeithas, yn enwedig ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Bu canmoliaeth i Rondda Cynon Taf am yr ymdrechion i ymgorffori'r arfer o feithrin unigolion a dod â nhw at ei gilydd trwy brofiadau diwylliannol a fydd yn arwain at ffordd newydd ac effeithiol o feddwl.

Soniodd Cyfarwyddwr y Gyfadran - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, am raglen 3 blynedd yr Awdurdod i greu 'Canolfannau Cymunedol' ar draws y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai pob 'Canolfan' yn addas i'r ardal unigol a byddai'n defnyddio dull ymyrraeth gynnar. / atal cynnar i gefnogi pobl sy'n agored i niwed. Byddai'r Canolfannau'n cael eu teilwra i'r gymuned, ac mewn rhai achosion yn cael eu rhedeg gan y Trydydd Sector, h.y. Glynrhedynog. Roedd y Grŵp Llywio yn falch o glywed bod cyfle i'r celfyddydau fod yn ganolog i'r broses.

Roedd trafodaethau ynghylch cyfleoedd posibl i weithwyr o fewn gwahanol wasanaethau diwylliannol a chelfyddydol i gyfnewid swyddi. Byddai hyn yn caniatáu i berson gael cipolwg empathetig ar rôl newydd er mwyn darparu gwasanaethau diwylliannol i wahanol wasanaethau.

Canmolodd cynrychiolydd Cyngor Celfyddydau Cymru y gwaith sy'n cael ei

wneud gan RCT i hyrwyddo cynaliadwyedd diwylliant a'r celfyddydau yn yr ardal. Ychwanegodd y Cadeirydd fod potensial, gyda'r Fargen Ddinesig, i RCT ddod yn fwy apelgar yn ddiwylliannol i gymunedau i'r Gogledd o Gaerdydd. Wrth ymateb i sylwadau ynghylch buddsoddiadau sylweddol i ddarparwyr mawr, dywedodd Ms Dunning y byddai adolygiad buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael ei wneud yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Grŵp Llywio am y drafodaeth gadarn, gan ddweud y byddai cyfle i symud y pynciau hyn yn eu blaenau ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**(Noder:** Yn dilyn y drafodaeth, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Rosser y cyfarfod)

**4 Cylch Gorchwyl**

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau**:**

a) Y bydd cyfarfodydd y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yn digwydd yn fwy aml - byddan nhw nawr yn cael eu cynnal bob chwarter ac yn cael eu monitro i barhau â'r momentwm cadarnhaol;
b) Y bydd Cylch Gorchwyl manylach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol i'w ystyried.

**5 Rhaglen Waith 2018/19**

Yn dilyn awgrym y Cadeirydd, **PENDERFYNODD** Aelodau**:**

a) Y byddai rhaglen waith yn cael ei datblygu o gwmpas meysydd thematig strategol y Gwasanaeth Celfyddydau a Diwylliant ac y byddai'n cael ei chyflwyno yng nghyfarfod priodol nesaf y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol i'w chymeradwyo.

**6 Busnes Brys**

Cymerodd y Cynghorydd Rees-Owen y cyfle i holi a oedd unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i goffáu y diweddar ddramodydd Cymreig, Frank Vickery. Gan gydnabod bod hwn yn fater sensitif, dywedodd Swyddogion y byddai teyrnged yn cael ei chynnal ar 19 Mehefin, 2019 i ddathlu Mr Vickery, a oedd yn gredyd i Rondda Cynon Taf. Er nad yw wedi'i gadarnhau eto, siaradodd y Grŵp Llywio yn gadarnhaol am y posibilrwydd o sefydlu cynllun bwrsariaethau er anrhydedd i Mr Vickery ac enwi stiwdio yn Theatr y Parc a'r Dâr ar ei ôl.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 pm**

**Y Cynghorydd R. Lewis**
**Cadeirydd.**